**HYSBYSIAD ADOLYGU**
**ARDALOEDD PLEIDLEISIO, LLEFYDD PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO**

Yn unol â Deddf Cynrychioli'r Bobl 1983 (Adran 18) fel y diwygiwyd gan Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 (Adran 16), rhoddir hysbysiad drwy hyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal adolygiad ar ei ardaloedd pleidleisio, llefydd pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio.
Nod yr adolygiad yw ceisio sicrhau bod:

- holl etholwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn cael cyfleusterau rhesymol i bleidleisio fel sy’n ymarferol dan yr amgylchiadau;
- llefydd pleidleisio yn addas i’w defnyddio gan holl sectorau’r gymuned;
- y llefydd pleidleisio ym Pen-y-bont ar Ogwr yn hygyrch i bob etholwr, yn cynnwys y rhai anabl, cyn belled â bod hynny yn rhesymol ac ymarferol.
- llefydd pleidleisio yn yr ardal bleidleisio honno ac eithrio os oes amgylchiadau arbennig yn peri y dylid rhoi’r llefydd pleidleisio mewn ardal sy’n gyfan gwbl neu’n rhannol y tu allan i’r ardal bleidleisio.

Gallai unrhyw etholwr ym Pen-y-bont ar Ogwr wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar yr ardaloedd pleidleisio, llefydd pleidleisio a’r gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir ar hyn o bryd. Yn ychwanegol, byddai’r Cyngor yn croesawu sylwadau gan:

- aelodau etholedig (Aelodau Seneddol, Aelodau'r Senedd a chynghorwyr sy'n cynrychioli etholwyr ym Pen-y-bont ar Ogwr);
- cynghorau tref a chymuned ym Pen-y-bont ar Ogwr ac unrhyw sefydliadau sy’n cynrychioli grwpiau penodol o bobl yn y Fro;
- ymgeiswyr y gorffennol neu ddarpar posibl a’u hasiantau;
- pleidiau gwleidyddol lleol; a
- pobl neu sefydliadau ag arbenigedd benodol mewn perthynas â mynediad ar gyfer pobl ag unrhyw fath o anabledd.

Dylai unrhyw berson neu gorff sy’n gwneud sylwad roi llefydd eraill y gellid eu defnyddio fel llefydd pleidleisio os yw’n bosibl, os mai dyma destun eu sylwadau. Dylid anfon sylwadau yn ysgrifenedig at Swyddog Cofrestru Etholiadau erbyn dydd Gwener 31 Ionawr 2025.

Bydd y Cyngor yn ystyried cynigion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng dydd Gwener 10 Ionawr 2025 a dydd Gwener 31 Ionawr 2025 gyda chanlyniadau terfynol yr adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar 14 Chwefror 2025 ar ôl ystyried sylwadau a wnaed gan bartïon â buddiant.

Nid oes cynigion i newid Ardaloedd Pleidleisio. Ceir manylion y rhestr bresennol ynghyd â’r newidiadau a gynigir ynghylch Llefydd Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio ar wefan y Cyngor yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/etholiad/ neu gan yr Adran Gofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod.

Gwasanaethau Etholiadol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

electoral@bridgend.gov.uk

Mark Shephard, Swyddog Cofrestru Etholiadol